Strategaeth Hamdden Sir Ddinbych

cyfleoedd i bawb gwella bywydau

hamdden sir ddinbych

cyfleoedd i bawb - gwella bywydau

Strategaeth Hamdden Sir Ddinbych

cyfleoedd i bawb gwella bywydau

Cynnwys

Rhagair 02

Y Sefyllfa Bresennol 05

Cyd-destun y Strategaeth 08

Heriau'r Dyfodol i Hamdden 12

Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau 14

Cyflawni ein Canlyniadau Allweddol 19

Rheoli Perfformiad 23

Yr Hen Garchar,
46 Ffordd Clwyd,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1HP.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

hamdden sir ddinbych
cyfleoedd i bawb - gwella bywydau

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r Strategaeth Hamdden eang hon ar gyfer Sir Ddinbych. Mae manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau iach wedi eu cofnodi ac yn cyfrannu tuag at well iechyd a lles, gwell hunan-barch, gwell rhyngweithiad cymdeithasol, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi annibyniaeth ein poblogaeth hŷn, ac mae pob un o'r rhain yn faterion arwyddocaol i Sir Ddinbych.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw a gweithio yn ein hardal. Rydym yn cydnabod potensial cymryd rhan mewn gweithgareddau Diwylliannol a Hamdden ar ddylanwadu ar ansawdd bywyd i bawb, ac rydym yn ystyried bod datblygu a gweithredu'r strategaeth hon yn ddull o annog a galluogi mwy o bobl i gymryd rhan.

Mae cymryd rhan mewn Hamdden a Diwylliant yn rhywbeth y gall pawb ei wneud ac rydym yn croesawu'r her a gyflwynwyd gan ein cymunedau i sicrhau bod hyn yn hygyrch ac yn gynhwysol ac yn cael ei fwynhau gan gymaint o bobl ag y bo modd.

Rydym yn credu bod y strategaeth hon yn pennu rhaglen ymestynnol ar gyfer darpariaeth Hamdden gref, gynaliadwy a chydgysylltiedig. Nid nod ynddo'i hunan, ond hefyd yn gam pwysig ar y daith yr ydym yn falch o'i chymryd gyda chymaint o bartneriaid ymroddedig.

Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno Cynghorwyr, staff, partneriaid a budd-ddeiliaid i flaenoriaethau'r Gwasanaethau Hamdden hyd at 2020. Mae'r angen am y strategaeth yn gynyddol bwysig ar yr adeg hon, pan fo cyllid yn brin, tra bo anghenion, disgwyliadau a dyheadau ein cwsmeriaid a'n partneriaid yn cynyddu. Mae'r strategaeth hon hefyd yn pennu sut mae Gwasanaethau Hamdden yn cyfrannu tuag at y darlun mwy yn ystod yr amser heriol hwn megis y sefyllfa gyda'r economi, twristiaeth, hyrwyddo cymunedau cryfach a diogelach, yr amgylchedd, a materion sy'n ymwneud â phobl hŷn a phobl iau. Mewn cyfnod economaidd mor anodd, gall y Gwasanaethau Hamdden barhau i sicrhau cyfleusterau Hamdden teg, fforddiadwy a hygyrch, yn enwedig gan fod y traethau, y parciau a'n cefn gwlad hyfryd ar gael yn rhad ac am ddim trwy gydol y flwyddyn.

O'r sylwadau a dderbyniwyd, roedd yn amlwg bod pobl wedi manteisio ar ein darpariaeth Hamdden dros nifer o genedlaethau yn yr un teulu. Mae hyn yn ein hatgoffa y dylai'r strategaeth ddiogelu darpariaeth i genedlaethau'r dyfodol, hyd yn oed pan fo'r cyfnod presennol yn mynd i fod yn anodd.

Tra bod y strategaeth yn delio â'r cyfnod rhwng 2011 a 2020, caiff ei monitro'n ofalus a'i hadolygu'n flynyddol. Mae'r strategaeth yn ffordd bwysig ymlaen o ran cyflwyno datblygiadau cyffrous yn y ddarpariaeth Hamdden yn y sir dros y 9 mlynedd nesaf, a fydd yn dod â manteision mwy hirdymor i'n trigolion a'n hymwelwyr.

Mae'r Strategaeth Hamdden hon yn delio â Sir Ddinbych ac mae wedi ei chyhoeddi gan Wasanaethau Hamdden Cyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth gan bartneriaid. Fodd bynnag, mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth ac yn gwneud argymhellion ar ran y sectorau Gwirfoddol, Preifat ac Addysg. Mae felly yn Strategaeth i'r Sir ac nid y gwasanaeth yn unig.

Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y mae Cyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid ym mhob sector yn ei wneud – hwyluso, dylanwadu a chomisiynu. Mae'n delio ag anghenion lleol – mewn chwaraeon a materion ehangach, trawsffiniol.

Bydd y Strategaeth yn galluogi i Gyngor Sir Ddinbych gyflawni "Gwerth Gorau" trwy ddyrannu adnoddau'n strategol a thargedu gwaith datblygu. Bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddatblygu dyfodol cynaliadwy ar gyfer cyfranogiad oes mewn Chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwylliant.

Ein bwriad yw adeiladu ar ein llwyddiannau diweddar, ac mae'r strategaeth hon yn rhoi pwyslais ar '**wella'r cyfle i bob un**' gymryd rhan mewn gweithgareddau iach a datblygu partneriaethau cryfion gydag ystod eang o gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, i '**wella bywydau**'.

Datblygwyd y strategaeth trwy ymgynghori helaeth gyda grwpiau a chyrff lleol er mwyn canfod y blaenoriaethau ar gyfer y naw mlynedd nesaf.

Rydym wedi adnabod **4** blaenoriaeth gydag amcanion allweddol i sicrhau bod ein gweledigaeth yn troi'n realaeth ac y gellir dangos cynnydd yn glir.

Y Cynghorydd Morfudd Jones

Aelod Arweiniol Plant, Pobl Ifanc, Hamdden a'r Iaith Gymraeg

Jamie Groves

Pennaeth Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol

Y Cynghorydd Pauline Dobb

Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llês

Y Sefyllfa Bresennol

Y Cynigion Sydd ar Gael

Mae'r cynigion sydd ar gael yn Sir Ddinbych eisoes yn amrywiol ac yn amryfal. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfleusterau, rhaglenni a gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y cyngor trwy'r Gwasanaeth Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedau.

Mae cyfleoedd hefyd trwy weithio gydag adrannau eraill y cyngor a thrwy gyfrwng partneriaethau gydag ystod o gyrff allanol ar draws y sectorau preifat a gwirfoddol.

Mae ystod eang o ddarpariaeth chwarae ar gael ledled y Sir gan gynnwys cynlluniau chwarae, parciau, "dysgu trwy chwarae" ac ymyrraeth anghenion arbennig.

Canolfannau Hamdden

Mae Gwasanaeth Hamdden y cyngor yn rhedeg saith canolfan hamdden ar hyn o bryd, chwech ohonynt mewn partneriaeth ag ysgolion. Mae gan bedair ohonynt bwll nofio ac mae cymysgedd o gyfleusterau dan do ac awyr agored ym mhob un gan gynnwys caeau gwair artiffisial a chanolfannau ffitrwydd. Maent hefyd yn rhedeg nifer o adeiladau cymunedol.

Datblygu Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol

Mae'r cyngor yn cynnig ystod o raglenni cymunedol yn canolbwyntio ar amrywiol grwpiau targed, sy'n cynnwys rhaglen chwaraeon i bobl anabl. Mae amrywiol fentrau cenedlaethol, gan gynnwys Rhaglen Nofio Am Ddim Llywodraeth Cymru, Chwaraeon y Ddraig sy'n targedu plant ysgolion cynradd, a rhaglen 5x60 i gynyddu cyfranogiad ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd y tu allan i'r cwricwlwm, hefyd ar gael. Mae rhaglenni chwaraeon penodol yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth gyda nifer o Gyrff Llywodraethol Cenedlaethol Chwaraeon.

Celfyddydau ac Adloniant

Mae Gwasanaeth Celfyddyd Sir Ddinbych yn rhedeg rhaglen o gelfyddydau cymunedol ar y cyd â nifer o grwpiau cymunedol, asiantaethau a chymdeithasau yn Sir Ddinbych. Mae'r rhaglen yn cynnwys yr holl ddisgyblaethau o ddrama i ddawns i gerddoriaeth a llawer mwy. Darperir hefyd nifer o gyfleusterau ffurfiol celfyddyd ac adloniant. Mae Pafiliwn y Rhyl, er enghraifft, yn cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth, drama, dawns, comedi, theatr gymunedol a theatr plant. Mae Pafiliwn Llangollen yn cynnig rhaglen trwy gydol y flwyddyn gydag opera, cerddoriaeth byd a'r Eisteddfod Gerddoriaeth Ryngwladol. Yng Nghanolfan Grefftau Ruthun, sydd wedi ei datblygu'n ddiweddar, mae tair oriel, chwe stiwdio i artistiaid, oriel werthu, gweithdai addysg a phreswyl, porth gwybodaeth i dwristiaid a chaffi. Mae'r cyngor hefyd yn ariannu cyfleusterau arbenigol eraill yn cynnig amrywiol gyfleoedd Hamdden, gan gynnwys Sinema Scala a'r Ganolfan Gelfyddydau ym Mhrestatyn, sy'n cynnig sinema ddigidol lawn gyntaf Cymru.

Cefnogi'r Gwasanaethau Gwirfoddol

At hyn, mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sector Gwirfoddol Sir Ddinbych, 38 o Gynghorau Tref a Chymuned ac asiantaethau allweddol eraill i gefnogi datblygu a chyflwyno'r Cynllun MAWR. Rhoddir cefnogaeth hefyd i glybiau a chymdeithasau chwaraeon trwy gyllid grant y Gist Gymunedol a Rhaglen Gweithgareddau Corfforol y Rhyl.

Gwella Iechyd

Mae rhaglenni sy'n canolbwyntio ar iechyd hefyd ar gael, gan gynnwys Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Pobl i Ymarfer Corff. Mae'r cyngor hefyd yn cyflwyno rhaglenni a ariennir yn allanol gan gynnwys rhaglen F Factor, sy'n cymryd agwedd deuluol tuag at gael mwy o bobl i fyw bywyd egnïol. Maent oll yn cyfrannu tuag at y gwasanaeth hamdden arwyddocaol sydd ar gael.

Y Sefyllfa Bresennol (parhad)

Hamdden Awyr Agored

Mae gan y cyngor nifer o gaeau chwarae, parciau ffurfiol a chyfoeth mawr o adnoddau naturiol ar gyfer hamdden. Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn rheoli mwy na 30 safle gan gynnwys Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau sy'n denu mwy na 500,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae digon o gyfle¬oedd hamdden i'w cael yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, ac mae mwy na 30 llwybr cerdded yn cael eu hyrwyddo yn yr ardal hon a gweddill y sir. At hyn, mae'r gwasanaeth yn rheoli Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n rhedeg ar hyd Sir Ddinbych, a llwybrau rhanbarthol eraill yn Nyffryn Dyfrdwy ac ar y glannau. Mae gennym raglen gerdded yn rhoi cyfle i fynd ar daith gerdded bob wythnos, a mwy na 50 digwyddiad bob blwyddyn. Mae'r sir wedi dod yn gyrchfan i feicio mynydd ac mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llwybrau i feicwyr o bob gallu, yn enwedig ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cydnabyddir Llandegla fel canolfan genedlaethol ar gyfer y gamp hon.

Hamdden a Thwristiaeth

Mae'r cyngor yn darparu nifer o atyniadau pwysig i dwristiaid, mewn partneriaeth â nifer o weithredwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y pwll hamdden yn yr Heulfan yn y Rhyl a Chanolfan Nova Prestatyn, a redir gan Clwyd Leisure Ltd.

Adeiladu ar Sylfeini Cadarn

Mae gan y cyngor a'i bartneriaid record da o lwyddiant o ran cyflwyno gwasanaethau o ansawdd sy'n cael defnydd da ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan drigolion lleol. Mae'r strategaeth felly'n adeiladu ar set o seiliau cadarn a sefyllfa o gadernid. Mae gan y Gwasanaeth Hamdden broffil uchel hefyd o fewn y cyngor eisoes, ac mae mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad i lawer o amcanion gwasanaethau eraill. Mae dealltwriaeth dda o sut gall hamdden wella bywydau pobl.

Model Effeithlonrwydd

Mae Canolfannau Hamdden Sir Ddinbych yn denu mwy na 800,000 o ymweliadau bob blwyddyn, ac maent y mwyaf effeithiol yng Nghymru o ran cymhorthdal gan y trethdalwr. Maent yn gyfleusterau "defnydd deuol" a redir mewn partneriaeth ag ysgolion ac yn y rhan fwyaf o achosion maent ar gael i'r gymuned eu defnyddio ar yr adegau prysuraf. Mae cynlluniau i uwchraddio'r cyfleusterau ffitrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn apelio i gynulleidfa eang

Gwasanaethau wedi eu Cynllunio a'u Cyflwyno'n Ofalus

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gweithio i Gytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol wedi ei gynllunio'n ofalus i sicrhau bod gan y gymuned fynediad ehangach i ystod eang o gyfleoedd. Mae'r Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol yn amlinellu sut mae hamdden yn cyfrannu at y Themâu Gwella a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2009-2012 a'r Cynllun MAWR. Mae darpariaeth lwyddiannus prosiectau a ddatblygir ac a gyflwynir yn lleol, megis cyhoeddi map llwybrau i feicwyr a cherddwyr, cynyddu cyfranogiad ymhlith pobl anabl a chydgysylltu rhaglen Chwaraeon y Ddraig yn cynnwys 100% o ysgolion cynradd y sir, yn awgrymu sylfaen cadarn lle gellir adeiladu mwy. Cydnabyddir Sir Ddinbych fel model o arferion da wrth ddatblygu a rheoli cyflwyniad trwy'r Cytundeb Partneriaeth. Cafodd Chwaraeon y Ddraig a'r rhaglen "5x60" eu gamlygu fel prosiectau enghreifftiol gan Chwaraeon Cymru yn 2010. Mae'r cyngor hefyd yn datblygu cymuned weithgar sy'n dysgu, trwy reoli Canolfan Integredig y Plant sy'n cynnig gwasanaethau plant fforddiadwy, o ansawdd.

Lefelau Cyfranogiad Uchel

Mae cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol gan 56% o oedolion yn golygu mai Sir Ddinbych yw'r sir ail fwyaf egnïol yng Nghymru. At hyn, mae'r cyfraddau cyfranogiad (56% o oedolion) yr ail uchaf yn y wlad. Serch hynny, mae angen annog mwy o bobl i gymryd rhan os yw hamdden i barhau i chwarae mwy o rôl ym mywydau pobl a gwella iechyd a lles.

Sector Gwirfoddol Bywiog ac Amrywiol

Mae nifer o glybiau a chymdeithasau llwyddiannus ledled y sir yn cynnig dewis eang o weithgareddau hamdden, celfyddyd a diwylliannol.

Sicrhau Cyllid Allanol yn Llwyddiannus

Mae gan y cyngor a'i bartneriaid record lwyddiannus o ran sicrhau cyllid ariannol allanol ar gyfer hamdden. Sicrhawyd rhyw £5m mewn blynyddoedd diweddar, gyda £2 filiwn arall wedi ei adnabod i'w wario ar wella cyfleusterau a gwasanaethau lleol. Fel rhan o raglen "Ffordd o Fyw" Cronfa Fawr y Loteri, mae'r cyngor yn treialu agweddau tuag at ddelio ag anweithgaredd ymhlith plant dan 12 oed a'u teuluoedd. Cafwyd cyllid hefyd gan nifer o Gyrff Llywodraethol Cenedlaethol i ariannu rhaglenni lleol ac mae cyllid adfywio eisoes wedi cyfrannu tuag at brosiectau megis prosiect beicio Marsh Tracks yn y Rhyl.

Cyflawni Amcanion Ehangach Cymdeithasol, Addysgol ac Economaidd.

Ni ddylid tanamcan pwysigrwydd hamdden o ran cyflawni amcanion ehangach y cyngor. Mae darpariaeth hamdden fywiog yn bwysig o ran cwrdd â blaenoriaethau ehangach iechyd, cymdeithasol, lles, economaidd ac addysgol. Adlewyrchir hyn yn y datblygiad yn ddiweddar i ehangu sgôp a chylch gorchwyl y Gwasanaeth Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedau i sicrhau bod cynllunio a chyflenwi yn cyfrannu tuag at dargedau ehangach y cyngor. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cynnwys goruchwylio rheolaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, yn cynnwys nifer o raglenni gwaith allgymorth. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio hamdden i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc, eu grymuso a rhoi mynediad iddynt at wybodaeth ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i symud o ddibyniaeth i annibyniaeth..

Cyd-destun y Strategaeth

"Mae nifer o strategaethau, polisïau a blaengareddau'n bodoli sy'n effeithio hamdden. Mae sicrhau bod y strategaeth hamdden yn cydnabod y rhain, ac yn mapio cyfraniad hamdden i gyflawni'r rhain yn hanfodol o ran sicrhau y caiff effaith ystyrlon."

Y Cyd-destun Lleol – Ffeithiau, Ffigurau ac Ystyriaeth Allweddol ar gyfer Hamdden yn Sir Ddinbych

Mae'r proffil demograffig, statws cyflogaeth, iechyd, lefelau incwm a chyfraddau cyfranogiad presennol oll yn cynnig cyfle a her i gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden. Crynhoir isod rai o'r ffeithiau allweddol i'w hystyried wrth gynllunio a chyflwyno darpariaeth hamdden:

- Mae gan Sir Ddinbych gyfran uchel o oedolion hŷn a'r oedran ail uchaf ar gyfartaledd ledled Cymru. Her allweddol tuag at symud ymlaen yw sut i ddarparu cyfle addas a hygyrch i'r sector hwn.

- Mae 26% o oedolion yn Sir Ddinbych yn adrodd bod ganddynt salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu, problem iechyd neu anabledd – mae hyn yn debygol o gyfyngu'r pethau sy'n apelio neu sy'n hygyrch i rai pobl.
- Mae lefelau gordewdra yn cynyddu yng Nghymru – mae gan hamdden rôl bwysig i'w chwarae wrth ymladd yn erbyn hyn, ond bydd angen i wasanaethau a rhaglenni gysylltu gydag ystod o fentrau iechyd a'u targedu'n briodol.
- Mae cyfraddau diweithdra yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae rhannau o rai ardaloedd yn y sir lle mae'r lefelau'n uwch – nid yw'r rhai sy'n ddiwaith fel rheol yn cymryd rhan gymaint â rhai mewn cyflogaeth reolaidd.
- Mae pocedi o amddifadiad difrifol yn y sir, gyda chwe Ardal o Gynnydd Ehangach Is yn y Rhyl, ymhlith y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru – mae ymchwil yn dangos bod rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn gweld lefelau iechyd is a'u bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden.
- Mae gan Sir Ddinbych statws 'Ardal a Gynorthwyir' Haen 1 sy'n rhoi mynediad at y cyfraddau uchaf o gymorth ariannol i ddiwydiant sydd ar gael yn y DU. Mae Sir Ddinbych hefyd yn gymwys i dderbyn arian Cronfeydd Strwythurol Cydgyfeiriant gan Undeb Ewrop. Mae adfywio (ffisegol, cymdeithasol ac economaidd) yn flaenoriaeth allweddol. Mae'n bwysig hefyd bod hamdden yn rhan o'r rhaglenni hyn.
- Mae cyfansoddiad gwledig a threfol y sir yn cyflwyno her i'r gwasanaeth o ran darparu agwedd holistig ledled y sir – nid yw o reidrwydd yn golygu lleoli cyfleusterau allweddol mewn ardaloedd gwledig, ond mae yn golygu gwneud y mwyaf o'r cyfle sydd ar gael yn y cymunedau hyn, ble bynnag y maent.

Strategaethau a Chynlluniau Lleol

Mae gweledigaeth hirdymor y cyngor, y bydd '**Sir Ddinbych yn 2025 yn lle delfrydol i fyw, gweithio, ymweld, ymgymryd â busnes a dilyn ystod eang o weithgareddau ynddo**', hefyd â goblygiadau i hamdden. Bydd darparu rhwydwaith o gyfleusterau hygyrch, o ansawdd, yn helpu cyflawni hyn. Mae'r Cynllun Corfforaethol (2009-2012) yn pennu pedair blaenoriaeth sy'n darparu meysydd canolbwyntio i sicrhau bod y cyngor a'i bartneriaid yn cyflawni hyn, a dyma nhw:

1. Newid Demograffig – mae hyn yn cynnwys datblygu annibyniaeth a dewis i bobl hŷn ac ail-ddylunio'r gwasanaeth i gymryd i ystyriaeth nifer cynyddol pobl hŷn a phobl anabl. Mae darpariaeth sy'n helpu pobl hŷn i aros yn egnïol ac iach yn flaenoriaeth allweddol ac mae angen i'r strategaeth hamdden adlewyrchu hyn.
2. Adfywio ein Cymunedau, sy'n cydnabod bod pocedi o amddifadiad sy'n cael eu cuddio gan sir gymharol ffyniannus yn gyffredinol. Mae gan hamdden rôl i'w chwarae wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, sy'n cynnwys hyrwyddo 'Troi'r Trai – Strategaeth ar gyfer Economi Ymwelwyr', gwella amgylchfyd lleol, delio ag anghydraddoldeb a hyrwyddo datblygiad busnes.
3. Moderneiddio Addysg – gwella safonau a chyfleusterau mewn portffolio o fwy na 50 o ysgolion yn y sir, sy'n flaenoriaeth allweddol. Mae gwella cyfleusterau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd lle lleolir canolfannau hamdden defnydd deuol y cyngor, hefyd yn allweddol o ran gwella darpariaeth hamdden, i'r rhai sy'n mynychu'r ysgol ac i'r gymuned yn ehangach. Bydd cynnwys pobl ifanc mewn amrywiol weithgareddau hamdden hefyd yn helpu datblygu arferion cyfranogiad rheolaidd.
4. Ffyrdd a Gwarchod y Glannau – mae sicrhau bod ffyrdd yn cael eu trwsio a bod cymunedau'n cael eu gwarchod rhag llifogydd yn flaenoriaethau allweddol. Maent hefyd yn berthnasol i hamdden. Mae ffyrdd yn allweddol ar gyfer amrywiol weithgareddau gan gynnwys cerdded, beicio a loncian, ynghyd â darparu llwybrau allweddol i drigolion i'r amrywiol ganolfannau ffurfiol ac anffurfiol ledled y sir.

Cyd-destun y Strategaeth (parhad)

Mae nifer o strategaethau a chynlluniau lleol yn nodi pwysigrwydd hamdden – er enghraifft, mae canlyniadau Cynllun MAWR newydd Sir Ddinbych, sef 'Bod yn iach' a 'chael teimlad o les' a 'bod yn lle gwych i fyw, gweithio a dysgu ynddo' â goblygiadau amlwg i hamdden. Mae'r Cynllun MAWR yn cyfuno pedwar prif gynllun strategol y cyngor, yn benodol y Strategaeth Gymunedol, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Chynllun Diogelwch Cymunedol. Mae ffocws y Cynllun MAWR yn golygu bod y Cyngor yn cydnabod ac yn gweithredu ar anghenion cymunedau (trwy gyfrwng adborth), dyrannu adnoddau ac arfarnu'r hyn y mae'n ei ddarparu trwy'r amser. Mae'n canolbwyntio ar nifer fechan o ganlyniadau blaenoriaeth a chyflwyno gwasanaethau rheng flaen. Yn arbennig o berthnasol i hamdden yw'r ffocws ar sicrhau bod pobl hŷn yn arwain bywydau annibynnol a llawn; bod cymunedau yn y Rhyl yn elwa o weithgareddau adfywio; bod pobl ifanc yn llwyddo ac â sgiliau am oes, a bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael mynediad at y gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Adolygwyd ystod o strategaethau eraill gan gynnwys Strategaeth Sir Ddinbych Iach a Strategaeth Chwarae Sir Ddinbych fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth hamdden. Hefyd, mae cyfraniadau posibl y gall hamdden eu gwneud i amrywiol gynlluniau ehangach, gan gynnwys cyflwyniad lleol y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ledled Cymru mewn perthynas ag ymyrraeth, rhwystro a hybu annibyniaeth. Mae strategaethau lleol eraill, megis Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Strategaeth Dwristiaeth Troi'r Trai, yn cynnwys hamdden.

Y Cyd-destun Cenedlaethol a Rhanbarthol

Yn genedlaethol, mae cydnabyddiaeth bod gan hamdden rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflwyno amrywiol amcanion cymdeithasol, addysg ac iechyd. Adlewyrchir hyn mewn nifer o strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd hamdden a'r angen i gynllunio gwasanaethau er mwyn cael yr effaith fwyaf. Crynhoir isod rai o'r meysydd allweddol lle gall hamdden wneud cyfraniad positif.

- Mae **Iechyd a Lles** yn faes lleol allweddol i'r gwasanaethau hamdden presennol. Yn amlwg, mae gweithgareddau corfforol a mathau eraill o hamdden â rôl i'w chwarae o ran gwella iechyd a lles trigolion Sir Ddinbych. Mae Cynllun Gweithgaredd Corfforol Cymru Egnïol yn nodi'r angen i ddatblygu partneriaethau cryf lleol, ffurfiol ac anffurfiol, targedu pobl ifanc, canolbwyntio ar leihau'r nifer o oedolion nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chynyddu

cyfraddau cyfranogiad. Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yn ein gweithgareddau ni.

- Mae'r **Weledigaeth Genedlaethol ar gyfer Chwaraeon** yn pwysleisio pwysigrwydd cael plant i ymdddiddori mewn chwaraeon. Mae hefyd yn adnabod yr angen i gryfhau gwaith partneriaeth a datblygu cyfleoedd cynaliadwy yn y gymuned. Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun gweithredu.

- **Datblygu'r Economi a Thwristiaeth** – mae datblygu a chynnal twristiaeth yn hanfodol i'r rhanbarth ac mae hamdden yn gwneud cyfraniad arwyddocaol. Ystyrir bod twristiaeth yn cynhyrchu £1.8bn i economi Gogledd Cymru ac mae'n cefnogi rhyw 37,500 swydd yn y rhanbarth. Mae sicrhau bod yr hyn a gynigir gan hamdden yn aros yn 'ffres' ac yn apelio yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r Straetgaeth Dwristiaeth Troi'r Trai yn cydnabod yr angen i adolygu hamdden ar hyd yr arfordir. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu tuag at economi mwy cynaliadwy.

- **Cyrhaeddiad Addysgol a Chyflogaeth** – dengys ffigurau diweddaraf Chwaraeon Cymru bod chwaraeon yn darparu mwy na 23,000 o swyddi yng Nghymru (cynnydd o bron i 20% o gymharu â'r arolwg diwethaf). Gall chwaraeon a hamdden roi cyfle i gael sgiliau bywyd allweddol, sy'n medru cyfrannu tuag at gynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol neu ddatblygu sgiliau meddalach, megis hyder, a all fod yn allweddol o ran gwella rhagolygon cael gwaith.

- **Adfywiad Ffisegol** – gall hamdden wneud cyfraniad positif i welliannau amgylcheddol, yn ychwanegol at adfywiad cymdeithasol ac economaidd. Mae llawer o'r mannau ar gyfer hamdden yn rhai awyr agored ac yn cefnogi cadw lleiniau gleision neu wella cefn gwlad naturiol ac ardaloedd arfordiol. Mae llawer o fuddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru yn yr ardal rhwng Llandrillo yn Rhos a Phrestatyn yn ymwneud â hamdden ac mae Sir Ddinbych hefyd yn derbyn cyllid trwy Raglen Cydgyfeiriant UE sy'n cynnwys buddsoddiad mewn nifer o brosiectau beicio. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn cynnwys cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn llwybrau cerdded a nifer o gyfleusterau hamdden lleol.

- **Datblygu Cymdeithasol a Chymunedol a Chydlyniant** – Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod potensial chwaraeon i wella cyfalaf cymdeithasol – mae 23% o'r holl gyrff gwirfoddol, cymunedol a di-elw yn gyrff chwaraeon. Gall cymryd rhan mewn hamdden hefyd roddi ffactor 'teimlo'n dda', balchder dinesig, ac i lawer dyma'r unig fath o 'gyfranogiad cymunedol' maent yn ei gael.

Heriau'r Dyfodol i Hamdden

Yn amlwg, mae nifer o heriau sydd angen eu trin fel rhan o'r strategaeth hamdden hon. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod gyda'r themâu blaenoriaeth a'r camau allweddol a fydd yn ceisio delio â'r rhain.

- **Darparu cyfle cyfartal ar draws amrywiol gymunedau** – Mae Sir Ddinbych yn gartref i bron 100,000 o bobl, yn byw mewn cymunedau trefol a gwledig sy'n wahanol iawn, pob un gyda'i nodweddion a'i heriau gwahanol ei hun. Fel y cydnabyddir yn y Cynllun Corfforaethol, mae demograffi'r sir yn newid ac yn benodol mae twf arwyddocaol yn y cyfran o bobl hŷn. Mae pobl ifanc hefyd yn ganolbwynt, o ran adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ac o ran cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau ystyrlon yn gynnar yn eu bywydau. Mae'r sir hefyd yn gyrchfan allweddol i rai sy'n byw mewn ardaloedd cyffiniol, ar gyfer gwaith, adwerthu a theithiau dydd ar gyfer hamdden ac adloniant. Mae felly yn her allweddol o ran darparu 'rhywbeth i bawb' a chynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n mynd i apelio at bawb a bod yn hygyrch i bawb.

  Mae'r Cyngor eisoes wedi cydnabod a mabwysiadu'r egwyddor bod chwarae yn rhan hanfodol o dyfu i fyny. Bydd datblygiad plant a phobl ifanc yn golygu y bydd angen i bolisïau yn y dyfodol geisio grymuso ymhellach cymunedau lleol i alluogi i blant chwarae'n ddiogel ac yn rhydd trwy well mynediad at fannau agored sy'n bodoli eisoes.

- **Cynyddu rôl hamdden o ran cyflwyno ar draws gwahanol agendâu** – Mae cyfrannu tuag at gyflwyno amcanion corfforaethol y cyngor yn flaenoriaeth i hamdden. Ond mae'n gynyddol bwysig fel rhan o strategaethau a chynlluniau ehangach, a datblygiad cyflym y dirwedd strategol yn Sir Ddinbych. Her allweddol felly yw sicrhau bod hamdden yn medru gwneud gwahaniaeth a 'chwarae ei ran'. Bydd hyn yn cynnwys cydgysylltiad effeithiol adnoddau ar draws nifer o asiantaethau.

- **Cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid** – Wrth i'r cyfleoedd hamdden ar draws y sir wella, mae dymuniadau cwsmeriaid yn parhau i newid. Bydd gwell cyfleusterau a mwy o ddewis yn arwain yn anochel at ddisgwyliadau uwch. Mae'n her felly wrth symud i'r dyfodol, o ran sicrhau bod y cyfle yn Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ddeniadol ac yn apelio at drigolion ac ymwelwyr. Mae sicrhau bod trigolion yn chwarae rhan wrth helpu cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth yn bwysig.

- **Cynyddu cyfraddau cyfranogiad** – Er gwaethaf lefelau cyfranogiad cymharol uchel mewn amrywiol fathau o hamdden, tybir mai dim ond un oedolyn ym mhob tri ledled y sir sy'n ddigon egnïol mewn gweithgareddau corfforol i fwynhau'r manteision iechyd sy'n gysylltiedig â chyfranogiad rheolaidd. At hyn mae aelodaeth clybiau yn is nag mewn ardaloedd eraill, yn enwedig ymhlith oedolion (dim ond 17% sy'n aelod o glwb). Mae cefnogi clybiau a chymdeithasau i ddenu a chadw mwy o aelodau egnïol yn flaenoriaeth allweddol, yn yr un modd â sicrhau bod marchnata a hyrwyddo cyfleoedd yn gydgysylltiedig, yn briodol ac yn effeithiol. Yr her allweddol yw cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan a hefyd amlder cyfranogiad. Nid mater o gael mwy i chwarae rhan ydyw yn unig, mae'n golygu cael y rhai sydd yn egnïol i wneud mwy. Mae hefyd yn golygu targedu grwpiau cyfranogiad isel megis pobl hŷn.

- **Cynnal lefel y ddarpariaeth bresennol yn yr hinsawdd economaidd anodd** – Mae llawer o'r heriau uchod yn ymwneud â chynyddu cyfranogiad mewn hamdden, creu mwy o gyfleoedd a dargedwyd a chynyddu effaith hamdden. Er bod hyn yn awgrymu'r angen am gynnydd arwyddocaol mewn buddsoddiad, mae heriau yn ymwneud â'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, ac effaith toriadau mewn gwariant a lleihad mewn cyllid allanol sydd ar gael. Her allweddol yw cynnal a gwella gwasanaethau mewn ffyrdd nad ydynt yn golygu buddsoddiad ariannol arwyddocaol. Yn yr un modd, mae cyfleoedd ar gael nad ydynt yn dibynnu cymaint ar

adnoddau. Er enghraifft, blaenoriaeth allweddol i'r Strategaeth Economi Ymwelwyr Troi'r Trai, yw datblygu'r llwybr arfordirol i'w botensial lawn. Gallai'r enillion o fuddsoddiad cymharol fychan fod yn sylweddol. Gan symud ymlaen, bydd hyn hefyd yn cynnwys adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i barhau i gefnogi'r sector annibynnol i'n helpu.

- **Adnewyddu hen gyfleusterau** - Mae Cyngor Sir Ddinbych yn meddu ar nifer o atyniadau hamdden sy'n gwasanaethu ymwelwyr a'r gymuned leol mewn lleoliadau da ar hyd arfordir y Rhyl a Phrestatyn sy'n dod at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Mae'r cyngor wedi cyhoeddi Fframwaith Adnewyddu Strategol ar gyfer y Rhyl a fydd yn arwain gweithgareddau yn y dyfodol a phenderfyniadau buddsoddi. Yn y cyd-destun hwn bydd angen ystyried sut i ddisodli neu adnewyddu'r atyniadau mawrion, pob un sydd angen buddsoddiad arwyddocaol, a fydd eu hangen er mwyn darparu cyfleusterau o ansawdd a fydd yn addas i'r 21ain ganrif.

Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau

Pwrpas y strategaeth hon yw nodi dyheadau, cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau'r cyngor a'i bartneriaid dros y naw mlynedd nesaf.

Mae hyn yn adeiladu ar y ddarpariaeth hamdden sylweddol sydd eisoes ar gael i drigolion ac ymwelwyr ledled y sir.

Y weledigaeth sy'n llywio ein cyflwyniad yw:

"Erbyn 2020 bydd Sir Ddinbych yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr."

I gyflawni'r weledigaeth hon, ein nod yw:

Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn amrywiol gyfleoedd hamdden.

Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan wrth helpu cyflwyno cyfleoedd hamdden.

Cynyddu proffil a phwysigrwydd hamdden i bawb.

Yn sylfaen i hyn mae dyhead i sicrhau hyrwyddo'r cyfleusterau priodol, yn y lleoliad priodol, darparu'r rhaglenni priodol.

Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau

Canlyniadau Dymunol

I weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth a gwireddu ein dyheadau rydym wedi cytuno pedwar canlyniad allweddol gyda'n partneriaid.

Mae'r pedwar canlyniad allweddol yn crynhoi'r hyn rydym eisiau ei gyflawni o ran ein gweledigaeth a'n dyheadau. Bydd cyflawni'r strategaeth yn sicrhau.

1. Cyrff sy'n cyflwyno cyfleoedd hamdden yn gweithio mewn partneriaeth i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau i gynllunio, darparu a hyrwyddo hamdden.
2. Pobl yn Sir Ddinbych yn cael mynediad at ddewis o leoliadau o ansawdd uchel lle medrent fwynhau eu gweithgareddau hamdden.
3. Sgiliau, adnoddau ac argaeledd holl drefnwyr cymunedol, arweinwyr, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sy'n chwarae rhan mewn darparu hamdden ar draws pob sector yn gwella.
4. Cynyddu cyfranogiad mewn cyfleoedd hamdden ymhlith ein grwpiau targed allweddol.

Mae trosolwg o'r camau allweddol i gyflawni'r canlyniadau hyn i'w weld yn nes ymlaen yn y ddogfen hon. Bydd cynlluniau busnes gwasanaethau yn rhoi mwy o fanylion ar y rhain a sut cânt eu cyflwyno.

Datblygwyd y strategaeth ar sail ymchwil arwyddocaol ac ymgynghori gydag amrywiol fudd-ddeiliaid. Mae arolygon, cyfweliadau a gweithdai gyda mwy na 600 o fudd-ddeiliaid yn darparu sylfaen tystiolaeth cadarn, ac mae'r canlyniadau a'r blaenoriaethau allweddol wedi eu seilio ar y rhain.

Caiff y strategaeth ei hun ei chefnogi gan gynlluniau busnes gwasanaeth yn cynnwys camau penodol gyda rhaglen o arolygon rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys pennu targedau penodol ar gyfer y canlyniadau allweddol a'r meysydd ffocws penodol. Mae Cyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid yn ymroddedig i gydraddoldeb a bydd yn sicrhau bod 'mynediad i bawb' yn aros yn egwyddor graidd sydd ymhlyg yn y gwaith o gyflawni'r strategaeth.

Cyd-destun y Strategaeth Hamdden

Mae ein gweledigaeth hamdden i Sir Ddinbych yn cynnwys datganiad clir o ble rydym eisiau bod erbyn 2020. Mae'r cyd-destun cenedlaethol a lleol yn fframio hyn, ynghyd ag ystyried Amcanion y Cynllun Corfforaethol a chanlyniadau'r Cynllun MAWR newydd – bydd y strategaeth hamdden yn anelu'n benodol at gyfrannu tuag at 'Fod yn iach a chael teimlad o les' a 'Lle gwych i fyw, gweithio a dysgu'. Mae ein strategaeth yn cynnwys tri prif ddyhead y byddwn yn eu cyflwyno trwy ganolbwyntio ar bedwar maes gwaith blaenoriaeth (canlyniadau). Nodir nifer o feysydd gweithredu allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac fe drafodir y rhain yn fanylach ar y tudalennau sy'n dilyn.

"Erbyn 2020 bydd Sir Ddinbych yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr."

Cyd-destun a dylanwadau lleol

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

Cyd-destun a dylanwadau cenedlaethol

Y Cynllun MAWR

Gweledigaeth Hamdden

Ein dyheadau

- Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan
- Cynyddu nifer y bobl sy'n darparu
- Codi proffil hamdden

Ein Canlyniadau Dymunol	CANLYNIAD 1: Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a chyflwyno	CANLYNIAD 2: Mynediad at leoliadau ansawdd uchel ar gyfer hamdden	CANLYNIAD 3: Cynyddu sgiliau ac adnoddau i ddarparu	CANLYNIAD 4: Ffocws ychwanegol ar grwpiau targed allweddol
Meysydd gweithredu allweddol	Corff cydgysylltu	Hybu hamdden cefn gwlad a'r arfordir	Buddsoddiad a dargedir mewn hyfforddi a gwirfoddolwyr	Rhaglenni i bobl hŷn
	Archwilio a mapio	Rhaglen gydgysylltiedig	Cynllun achredu i glybiau a chymdeithasau	Rhaglen i bobl iau
	Strategaethau ymadael	Buddsoddi mewn cyfleusterau iechyd a ffitrwydd	Datblygu rhwydwaith o 'Hyrwyddwyr Cymunedol'	Gweithio gyda Phartneriaid Cenedlaethol arbenigol
	Strategaeth Farchnata	Defnyddio cyfleusterau heb fod yn rhai hamdden		Canolbwyntio ar ardaloedd difreintiedig
	Cynllun Arfarnu	Gweithio gyda Chludiant a Chynllunio		

Egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu dilyn

- Cydraddoldeb
- Mwyafu manteision
- Dyhead ac Ysbrydoliaeth
- Iaith briodol
- Cynhwysiant
- Canolbwyntio ar ganlyniadau

Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

Egwyddorion Sylfaenol

Mae ein strategaeth yn nodi nifer o ddyheadau clir a chanlyniadau dymunol. Bydd angen llywio meysydd gwaith blaenoriaeth gan egwyddorion sylfaenol:

- **Cydraddoldeb a mynediad i bawb** – mae'r strategaeth yn ceisio delio ag anghydraddoldeb trwy gael gwared â'r rhwystrau a denu cyfranogwyr newydd.
- **Mwyafu manteision cyfranogiad mewn hamdden** – cydnabyddir bod cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau hamdden yn cyfrannu'n gadarnhaol, nid yn unig at iechyd ond hefyd at les cyffredinol, addysg a datblygiad personol a chymunedol.
- **Mwyafu'r cyfleoedd buddsoddi** – byddwn yn dal i geisio cyllid allanol er budd hamdden, ond o fewn fframwaith y strategaeth hon.
- **Uchelgais a dyheadau** – mae'r canlyniadau'n uchelgeisiol ac mewn rhai achosion yn cynrychioli dyheadau. Mae cyflwyno cynllun gweithredu uchelgeisiol yn pennu'r agwedd er mwyn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael a chefnogi pobl i'w cyrchu.
- **Iaith briodol ac ystyriaethau diwylliannol** – bydd cyfranogwyr a'r rhai sy'n ceisio gwybodaeth ar gyfleoedd hamdden yn y sir yn medru gwneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gweithgareddau marchnata a hyrwyddo yn defnyddio dulliau priodol.
- **Cynhwysiant** – egwyddor allweddol i sicrhau mynediad i bawb ond hefyd o ran cynnwys partneriaeth er mwyn cyflwyno ar y cyd.
- **Canolbwyntio ar y canlyniadau** – bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Cyflawni ein Canlyniadau Allweddol

Canlyniad 1:

Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a chyflwyno.

Mae cyrff sy'n cyflwyno cyfleoedd hamdden yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau i gynllunio, darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden.

Gwnawn hyn trwy wella cyfathrebu rhwng partneriaid a chydgysyllu ymchwil, ymgynghoriad a rhaglenni ariannu. Rydym yn cydnabod natur amrywiol yr hyn o gynigir ar hyn o bryd a'r her wrth sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu a'i hyrwyddo'n gyson. Mae'r hinsawdd wleidyddol ac economaidd anodd hefyd yn ei gwneud yn hanfodol ein bod y gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd camau allweddol yn cynnwys

- **Datblygu corff cydgysylltu hamdden ffurfiol i wella cydgysylltu** – bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu rôl grŵp llywio'r strategaeth fel ei fod yn gyfrifol am gyflawni'r camau allweddol a nodwyd a gwella cyfathrebu rhwng partneriaid.
- Ymgymryd â rhaglen i archwilio a mapio capasiti i wella ein tystiolaeth ynglŷn â phwy sy'n cyflwyno a phwy sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.
- Cynnal gwasanaethau presennol trwy ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd a strategaethau ymadael i'r gwasanaethau hamdden hynny a gyflwynir gyda chyllid allanol byrdymor.
- Datblygu cynllun monitro ac arfarnu a gytunwyd yn canolbwyntio ar effaith a mesurau canlyniad ac a gefnogir gan set o ddangosyddion perfformiad allweddol priodol.
- Datblygu strategaeth farchnata i gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision cymryd rhan, a'r hyn sydd ar gael. Datblygir 'brand' ar gyfer hamdden a gaiff ei ddatblygu fel 'nod barcud' ansawdd.
- Datblgu rhaglen ymchwil rheolaidd i'r farchnad i ofyn barn ac y gellir ei defnyddio wrth arfarnu darpariaeth y strategaeth.

Cyflawni ein Canlyniadau Allweddol (parhad)

Canlyniad 2:

Mynediad at leoliadau ansawdd uchel ar gyfer hamdden.

Bydd pobl Sir Ddinbych yn medru dewis rhwng lleoliadau o ansawdd uchel lle medrent fwynhau eu gweithgareddau hamdden.

Gwnawn hyn trwy weithio'n effeithiol gydag amrywiol bartneriaid, yn ymateb i adborth cwsmeriaid, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy arolygon digonolrwydd hamdden a pharhau i fuddsoddi mewn gwelliannau mewn ansawdd.

Bydd Camau Allweddol yn cynnwys:

- Gwella gwaith marchnata a hyrwyddo'r hyn sydd ar gael mewn hamdden cefn gwlad ac arfordirol.
- Cydgysylltu rhaglenni cyfleusterau adloniant awyr agored i fynd gyda'n canolfannau hamdden a phrosiectau a rhaglenni eraill.
- Parhau i fuddsoddi yn y cyfleusterau iechyd a ffitrwydd yn ein canolfannau hamdden i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Gorfforol ysgolion a'r hyn a gynigir i'r gymuned.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella ac ymestyn y cyfleoedd hamdden sydd ar gael mewn cyfleusterau heb fod yn rhai hamdden lle'n briodol a lle gellir ei fforddio.
- Gweithio gyda gwasanaethau cynllunio a chludiant i sicrhau bod yr amgylchfyd adeiledig a'r seilwaith lleol mor hamdden-gyfeillgar ag y bo modd.

Canlyniad 3:

Cynyddu sgiliau ac adnoddau i gyflwyno'r ddarpariaeth.

Gwella sgiliau, adnoddau ac argaeledd holl drefnwyr cymunedol, arweinwyr, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sy'n chwarae rhan mewn darparu gweithgareddau hamdden ar draws y sectorau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y sector gwirfoddol yn benodol. Mae clybiau chwaraeon sector gwirfoddol a chyrff celfyddydau lleol yn hanfodol i hamdden. Mae cefnogi clybiau a chymdeithasau i barhau i ddabtlygu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau yn sylfaenol i'n dyheadau.

Byddwn yn adeiladu ar y capasiti trwy barhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a gwirfoddoli, gan ddefnyddio gwybodaeth well a thrwy gydweithio gwell gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Bydd hyn yn golygu ystyried sgiliau, adnoddau ac argaeledd trefnwyr, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr ac adnabod unrhyw fwlch sydd angen ei lenwi.

Bydd Camau Allweddol yn cynnwys:

- Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddwyr a gwirfoddolwyr a thargedu hyn trwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd wrth archwilio a mapio.
- Ystyried dabtlygu cynllun achredu ansawdd sylfaenol i glybiau a chymdeithasau i sicrhau ansawdd lleiaf ar gyfer yr hyn sydd ar gael i drigolion.
- Datblygu a chefnogi rhwydwaith o 'hyrwyddwyr' cymunedol i hyrwyddo a chyflwyno amrywiol gyfleoedd. Gallai hyn ganolbwyntio ar alluogi mwy o ddefnydd o amglchfyd naturiol y sir ar gyfer hamdden ac mewn ardaloedd lle nad yw cyfran fawr o'r boblogaeth yn cymryd rhan ar hyn o bryd.

Cyflawni ein Canlyniadau Allweddol

Canlyniad 4: Ffocws ychwanegol ar grwpiau targed.

Cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden ymhlith grwpiau targed allweddol (yn benodol rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn draddodiadol a lle mae'r manteision mwyaf yn deillio o gymryd rhan).

Byddwn yn gwneud hyn trwy dargedu adnoddau ychwanegol yn yr ardaloedd hynny a'r grwpiau poblogaeth lle mae'r angen mwyaf. Rydym yn cydnabod bod angen cefnogaeth ychwanegol i rai grwpiau i helpu cynyddu lefelau cyfranogiad. Mae grwpiau eraill, pobl ifanc yn benodol, yn grŵp targed oherwydd bod datblygu cyfranogiad gweithredol mewn hamdden yn allweddol o ran datblygu'r arferion hyn am oes. Mae'r canlyniad hwn yn cydnabod natur newidiol a phroffil oedran ein poblogaeth, ond mae hefyd yn rhesymol rhoi cefnogaeth wedi ei thargedu ac adnoddau i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.

Bydd Camau Allweddol yn cynnwys:

- Datblygu mwy o raglenni i bobl hŷn yn ein canolfannau hamdden a mannau eraill. Bydd y strategaeth farchnata hefyd yn cynnwys negeseuon allweddol a dulliau priodol i gael mwy o bobl hŷn i gymryd rhan, a rhoi cyfle iddynt.
- Parhau i ganolbwyntio rhaglenni ar bobl ifanc ond ceisio ymestyn y rhain yn fwy i'r grŵp oedran 16-21.
- Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol a lleol (e.e. Ffederasiwn Chwaraeon i Bobl Anabl Cymru) i ddatblygu cyfleoedd i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol ac sydd ag anghenion penodol. Lle'n ymarferol, gwnawn hyn trwy fwyafu'r apêl a chael mynediad at raglenni prif ffrwd.
- Canolbwyntio ar ardaloedd difreintiedig a lle mae iechyd gwael (e.e. gordewdra) lle bydd cynyddu cyfranogiad mewn hamdden yn cael effaith arwyddocaol. Un ardal darged benodol yw'r Rhyl.

Rheoli Perfformiad

Rydym yn cydnabod, er mwyn cynnal a gwella cyfleoedd i drigolion lleol, ei bod yn bwysig monitro ein perfformiad a rheoli cyflwyniad cyffredinol y camau allweddol strategol. Er mwyn monitro perfformiad, datblygir set o ddangosyddion penodol. Bydd angen cytuno'r dangosyddion a'r targedau gyda phartneriaid allweddol a'u pennu yn unol ag ymchwil bellach sydd i ddigwydd (mapio ac archwilio), gan sicrhau bod targedau yn cymryd i ystyriaeth y waelodlin (sefyllfa bresennol) a sicrhau y gellir eu cyflawni yn realistig.

Caiff y strategaeth ei monitro gan ddefnyddio fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol y cyngor. Unwaith y byddant wedi eu datblygu, cynhwysir y dangosyddion a'r camau hyn yng nghynllun busnes Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedau.

Bydd gwaith monitro cyflwyniad y strategaeth, a'r dangosyddion a gytunwyd, yn cymryd i ystyriaeth y mewnbynnau (adnoddau sy'n cael eu buddsoddi yn y gwasanaeth), gweithgareddau (y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gyda'r adnoddau hyn), allbynnau (gan gynnwys nifer defnyddwyr) a chanlyniadau (beth sy'n cael ei gyflawni).

I gyd-fynd â fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol y cyngor, caiff y strategaeth ei monitro'n chwarterol, gan adrodd fel y bo'n briodol. Mae monitro ac adolygu yn broses barhaus, er mwyn cael gwybodaeth i gymryd penderfyniadau a llunio newidiadau yn y ddarpariaeth, yn hytrach na beirniadaeth ar y sefyllfa ar ddiwedd darpariaeth. Bydd adroddiadau rheolaidd yn cynnwys adroddiad ar y cynnydd cyffredinol, gyda statws 'coch', 'amber' a 'gwyrdd', ac arolwg o'r rhesymau am wyro oddi wrth targedau a gytunwyd.

Bydd y broses fonitro ac adolygu yn golygu casglu data o'r mannau canlynol

- Cyfarfodydd adolygu'r strategaeth
- Barn trigolion, o ymarferion ymgynghori corfforaethol ac arolygon hamdden
- Data ariannol a phresenoldeb yn ymwneud â chyfleusterau ffurfiol a rhaglenni
- Data cenedlaethol (megis Arolwg Cymru Egni'ol Chwaraeon Cymru)
- Ymgynghori â staff cyflwyno
- Tystiolaeth a data perthnasol gan bartneriaid allweddol
- Monitro adroddiadau a gyflwynir i arianwyr allanol

Cynhyrchir adroddiad adolygu blynyddol yn dangos y cynnydd o ben i ben a newidiadau allweddol i gamau a gytunwyd.

"Erbyn 2020 bydd Sir Ddinbych yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr."

hamdden sir ddinbych

cyfleoedd i bawb - gwella bywydau